# Offeryn Asesu'r Effaith ar y Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae safonau'r Gymraeg yn gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar:

- greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
- effeithiau cadarnhaol a negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y Gymraeg.

Mae gwaith Comisiynydd y Gymraeg i fonitro ac i ymchwilio i gwynion wedi canfod:

- 'Anghysondeb yn y modd y mae cyrff yn ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir ar y Gymraeg a bod y prosesau sydd ar waith yn annigonol.'
- '[mae] angen i gyrff ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyswllt y Gymraeg wrth ddatblygu polisi.'[1]

Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi cynnwys y Gymraeg fel nodwedd yn ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi egluro nad yw hyn yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg ac felly mae angen datblygu offeryn asesu amgen.

## Diffiniad a gofynion

Mae adran 29(6) o fesur y Gymraeg yn nodi bod 'penderfyniad polisi' yn golygu 'penderfyniad gan berson ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau neu ynglŷn â chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall'. [2]

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi:

'disgwylir i'r weithred o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg fod yn rhan anhepgor o lunio, adolygu neu addasu polisïau o'r dechrau. Dylid gwneud hyn cyn i'r penderfyniad polisi terfynol gael ei wneud'.[3]

Gall penderfyniadau polisi gynnwys y canlynol:

- Cynnwys deddfwriaeth.
- Arfer pwerau statudol.
- Cynnwys datganiadau polisi.

---

[1] Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Dogfen gyngor ar arferion da https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/ojyovcx5/20200921-dg-c-safonau-llunio-polisi-terfynol.pdf t.2

[2] ibid t.5

[3] Cod Ymarfer y Comisiynydd ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

- Strategaethau neu gynlluniau strategol.
- Strwythurau mewnol.
- Gweithgareddau a wneir wrth gynnal busnes e.e. cynnal digwyddiadau i roi cyhoeddusrwydd i benderfyniad polisi.

Mae'r safonau llunio polisi a osodwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ystyried:

- pa effeithiau, os o gwbl (a p'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael;
- sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
- sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol:
    - ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'r safonau cadw cofnodion a osodwyd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a

Gorllewin Cymru:

- gadw cofnod o'r camau y mae wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

'Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddogfennau ymgynghori cyrff ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau posib y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.'[4]

## Offeryn asesu'r effaith ar y Gymraeg

Mae'r offeryn asesu Cymraeg canlynol wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dogfen ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar y safonau llunio polisi a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020[5].

Rhowch wybodaeth gefndirol gryno am y papur arfaethedig:

[4] Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Dogfen gyngor ar arferion da https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/ojyovcx5/20200921-dg-c-safonau-llunio-polisi-terfynol.pdf t.17
[5] ibid

Cynhyrchwyd CRhRC 2040 i dynnu sylw at sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a sut rydym yn bwriadu eu bodloni a'u lliniaru. Bob blwyddyn, byddwn yn adolygu gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y gwasanaeth a amlinellir yn y CRhRC er mwyn sicrhau ein bod yn dal i roi’r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Yn dilyn cyfres o weithdai, crëwyd gweledigaeth newydd sy’n cyd-fynd yn well â dyheadau tymor hwy y gwasanaeth ac sydd yn well am adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol a amlinellwyd yn y fersiwn drafft o CRhRC 2040.
Roedd yr adborth a gafwyd o'r gweithdai hefyd yn nodi y byddai’n briodol dileu'r Genhadaeth a'r Gwerthoedd blaenorol a chyflwyno Ymddygiadau yn eu lle. Ar ôl ystyriaeth ofalus, cytunwyd i fabwysiadu cyfres o Ymddygiadau sy’n cyd-fynd â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, y Cod Moeseg Craidd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, y Fframwaith Arweinyddiaeth a’r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn anffurfiol yn Egwyddorion Nolan.
Cydnabuwyd bod cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a amlinellir yn CRhRC 2040 yn dibynnu ar ystod o swyddogaethau galluogi, sy'n chwarae rhan hanfodol yng ngweithrediad y sefydliad o ddydd i ddydd. Canlyniad hyn oedd cyflwyno set o alluogwyr, a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion ond hefyd yn sicrhau bod gennym ddarpariaethau ar waith sy’n cefnogi gwelliant parhaus ac ystyrlon.

Mae'r 8 amcan gwella a llesiant a'u camau gweithredu wedi'u rhestru isod. Byddan nhw’n cael eu hasesu'n flynyddol gan swyddog y Gymraeg er mwyn sicrhau bod ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn cael ei gynnal.

**Amcan 1 –** Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.

**Camau Gweithredu**
**1.1:** Dylunio a gweithredu cynllun sefydliadol hirdymor gyda'r nod o feithrin gwelliant diwylliannol, gyda gwerthusiad parhaus o gynnydd ac effaith.
**1.2:** Cynnal adolygiad annibynnol o Safonau Proffesiynol a phrosesau mewnol cysylltiedig, gan ymgorffori unrhyw welliannau a nodwyd.
**1.3:** Ymgorffori'r Strategaeth Lles a'r Cynllun Gweithredu Lles i gefnogi iechyd a lles ein staff a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.
**1.4:** Adolygu cylch oes gweithwyr a gyrfaoedd i wella cyfleoedd recriwtio, cadw a datblygu i staff. Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:
- Denu, Recriwtio a Chadw
- Cynefino
- Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygu, gan gynnwys llwybrau sefydliadol
- Gwerthuso Staff a Rheoli Perfformiad

**1.5:** Adolygu a gweithredu canfyddiadau ein prosesau recriwtio i wella niferoedd staffio.
**1.6:** Gweithredu argymhellion ein harolwg Archwiliad Diwylliannol a gwerthuso'r cynnydd sy’n cael ei wneud.
**1.7:** Cyflwyno cyfleoedd hyfforddi newydd i staff sy'n dymuno symud ymlaen.

**Amcan 2 –** Byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.

**Camau Gweithredu**
**2.1:** Cynnwys ein holl staff mewn ymchwil i wella arferion gwaith a hyrwyddo diwylliant gweithlu cwbl gynhwysol.
**2.2:** Adnabod y gwelliannau sydd eu hangen er mwyn gwella ein system ddyletswydd Ar Alwad.
**2.3:** Gwerthuso'r gwelliannau sydd wedi'u gweithredu er mwyn deall eu heffeithiolrwydd.

**Amcan 3 –** Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.

**Camau Gweithredu**
**3.1:** Adolygu ein sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth.
**3.2:** Adolygu lleoliadau gorsafoedd tân i adlewyrchu'r newid mewn demograffeg a risg gymunedol.
**3.3:** Adolygu a gwerthuso'r ffordd y mae ein gwasanaethau atal ac amddiffyn yn cael eu darparu.
**3.4:** Cynnal a gwella Iechyd a Diogelwch yn barhaus ar gyfer ein personél, ein hasedau, a'n gweithleoedd.
**3.5:** Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli halogyddion a gwreiddio'r rhain o fewn y Gwasanaeth.

**Amcan 4 –** Byddwn yn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i adolygu ac i weithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.

**Camau Gweithredu**
**4.1:** Cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau darpariaeth frys, yn unol â risgiau cymunedol.
**4.2:** Adolygu a gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn staffio ein gorsafoedd tân, ein hadrannau, a Rheoli Tân ar y Cyd.
**4.3:** Gweithredu technegau a thactegau diffodd tân newydd yn unol ag arferion gorau'r sector.
**4.4:** Archwilio cyfleoedd, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd i wella ein dealltwriaeth o risg Rheoli Tân ar y Cyd ar y pwynt anfon allan.
**4.5:** Archwilio cyfleoedd, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau newydd i foderneiddio sut rydym yn cynllunio, yn cofnodi ac yn rheoli argaeledd i rybuddio ac i anfon adnoddau'r Gwasanaeth allan yn ddeallus.

**Amcan 5:** Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Diogelwch Tân Busnesau) yn rheolaidd i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

**Camau Gweithredu**
**5.1:** Sicrhau bod ein hymyriadau diogelwch tân yn y cartref yn seiliedig ar bobl a'r risgiau sy'n eu hwynebu, i ddarparu gwerth economaidd a chymdeithasol.
**5.2:** Darparu ymyriadau diogelwch allweddol i blant a phobl ifanc canolbarth a gorllewin Cymru, drwy ddull cydweithredol sydd wedi'i dargedu ac sy'n bodloni anghenion amrywiol y gymuned.

**5.3:** Darparu ymyriadau tanau gwyllt a llosgi bwriadol sy'n darparu gwerth cymunedol go iawn wrth adeiladu ar wybodaeth a phrofiad ein partneriaid wrth ddelio â'u heffeithiau, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.
**5.4:** Archwilio opsiynau a rhoi newidiadau ar waith i gwrdd â'r gofynion cyfnewidiol a chymhleth o ran diogelwch adeiladau ac addasu er mwyn diwallu anghenion deddfwriaeth bresennol a newydd.
**5.5:** Sicrhau bod ein trefniadau Amddiffyn yn bodloni'r risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.
**5.6:** Darparu gweithgareddau ymyrraeth diogelwch lleol a rhanbarthol, gan gynnwys gorfodi, i sicrhau bod y rhai sydd â dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

**Amcan 6 –** Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom.

**Camau Gweithredu**
**6.1:** Gwella ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau ein cymunedau drwy ymgynghori ac ymgysylltu.
**6.2:** Nodi a gweithredu dulliau newydd o ymgysylltu â staff a chymunedau
**6.3:** Dylunio, datblygu a gweithredu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol.
**6.4:** Adolygu a gweithredu newidiadau a gafwyd o'r gwersi a ddysgwyd, a gweithredu ar y canfyddiadau ynghylch dulliau o ymgysylltu â staff a'r gymuned.
**6.5:** Ymgorffori'r alinio â phob undeb llafur yn unol â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o safbwynt newid sefydliadol.

**Amcan 7 –** Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy.

**Camau Gweithredu**
**7.1:** Gweithio tuag at amcanion Map Ffordd Sero Net 2030 y Gwasanaeth, sydd yn ystyried targedau Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygiad (a'i amserlen)
**7.2:** Nodi a gwerthuso effeithiolrwydd tanwydd amgen ar gyfer ein cerbydau.
**7.3:** Ymgorffori a gwerthuso manteision uned newydd Hyfforddiant Ymddygiad Tannau mewn Adrannau.
**7.4:** Adfywio ein hystâd er mwyn sicrhau bod ein gweithleoedd yn amgylcheddol gynaliadwy, a bod y mannau gwyrdd yn annog adfer a chreu cynefinoedd.
**7.5:** Paratoi, rheoli a gwerthuso ein gweithdrefnau sefydliadol er mwyn deall eu heffaith amgylcheddol.
**7.6:** Nodi technegau a chyfarpar gweithredol newydd i liniaru effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.
**7.7:** Gweithio gyda'n cyflenwyr a'n defnyddwyr i wneud ein cadwyn gyflenwi yn gyfeillgar i'r amgylchedd.
**7.8:** Canfod modd o ddigideiddio a symleiddio prosesau ar draws y Gwasanaeth, er mwyn lleihau'r defnydd o bapur.
**7.9:** Monitro holl ffigurau'r llif gwastraff er mwyn sicrhau bod gwastraff cyffredinol yn cael ei leihau a bod gwelliant yn digwydd ym mhob agwedd ar ailgylchu.

**Amcan 8 –** Byddwn yn esblygu ein gofynion fflyd ac offer er mwyn i ni allu ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

**8.1:** Bod â cherbydau ac offer a fydd yn helpu i reoli halogiad yn effeithiol mewn argyfyngau.
**8.2:** Darparu'r cerbydau cywir i'n diffoddwyr tân ymateb i'r risgiau yn ein cymunedau.
**8.3:** Sicrhau bod ein cyfarpar gweithredol yn ein galluogi i fod yn effeithiol mewn argyfyngau.

**Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg**

1. A fyddai penderfyniad i gymeradwyo'r papur hwn yn cael effaith ar:

| | Effaith Gadarnhaol | Effaith Negyddol | Dim Effaith | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn: | | | | |
| ▪ Y teulu? | | | X | |
| ▪ Y gymuned? | | | X | |
| ▪ Y gweithle? | | | X | |
| Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | | | X | |
| Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg? | | | X | |
| Cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg? | | | X | |
| Sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol? | | | X | |

2. A fyddai penderfyniad i gymeradwyo'r papur hwn yn:

| | Byddai | Na fyddai | Sylw |
|---|---|---|---|
| Arwain at gynnydd yn nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg? | | X | |
| Arwain at ostyngiad yn nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg? | | X | |
| Ei gwneud hi'n haws recriwtio siaradwyr Cymraeg? | | X | |
| Ei gwneud hi'n anoddach recriwtio siaradwyr Cymraeg? | | X | |

3. Os gwnaethoch waith ymchwil wrth baratoi'r papur hwn, a wnaeth eich gwaith ystyried yr effaith ar y Gymraeg?

| Do | Naddo | Amh. | Sylw |
|---|---|---|---|
| | | X | |

4. A gynhaliwyd ymgynghoriad i:

| | Do | Naddo | Sylw |
|---|---|---|---|
| Ystyried a cheisio barn ar yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn ei gael ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio? | | X | |
| Ystyried a cheisio barn ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | | X | |
| Sicrhau bod y sampl ymgynghori yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg? | X | | Gwnaed gwaith ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg ar eu cais. |

**Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg** (i'w gwblhau gan Swyddog y Gymraeg)

5. Pa rai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol?

| | Ydy | Rhif y Safon | Nac ydy |
|---|---|---|---|
| Safonau gwasanaethau | X | 73, 74, 74A, 75, 77 | |
| Safonau gweithredu | X | 101-116, 134-142 | |
| Safonau llunio polisi | X | 85–95 | |
| Safonau adrodd | | | X |

6. A allai'r polisi / camau gweithredu arwain at beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg?

| | Gallai | Na allai | Sylw |
|---|---|---|---|
| Safonau gwasanaethau | X | | Mae'r sylw hwn yn berthnasol i bob un o'r pedwar maes Safonau.<br><br>Bydd angen i waith y tîm CRhRC, y camau gweithredu o fewn y CRhRC, a’r meysydd ffocws allweddol ehangach i gyd ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi. Boed yn newid y model criwio, symud offer neu gau gorsaf, mae'n hanfodol bwysig bod asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal ar gyfer pob prosiect unigol cyn gynted â phosibl yng nghyfnod cynllunio'r prosiect fel y gellir rhoi prosesau ar waith i liniaru effaith negyddol ar y Gymraeg, a chydymffurfiaeth y Gwasanaeth â'i ofynion deddfwriaethol. |
| Safonau gweithredu | X | | Fel yr uchod |
| Safonau llunio polisi | X | | Fel yr uchod |
| Safonau adrodd | X | | Fel yr uchod |